Gweiddi

## Tasg 1

# O DDYDD I DDYDD

1. Pam mae'r gwenoliaid yn eistedd mewn rhes? Arwydd o beth ydy hyn yn ôl y bardd?

2. Ym mha fis, yn eich barn chi, mae'r bardd yn ysgrifennu'r gerdd? Pam rydych chi'n dweud hyn?

3. Beth yw'r gwahaniaeth rhwng y traeth pan mae'r bardd yn ysgrifennu'r gerdd a'r traeth yn yr haf?

4. Pa dechneg mae'r bardd yn ei defnyddio pan mae'n sôn am yr adar, yr awel a'r nant. Rhowch ddyfyniadau i brofi eich ateb.

5. Beth mae'r gair 'sbo' yn ei ddweud wrthych am sut mae'r bardd yn teimlo?

2. Tynnwch linell o’r golofn gyntaf i’r ffaith gywir ar yr ochr dde.

| | |
|---|---|
| **Medi 1, 1939** | Sesiwn recordio cyntaf  Y Beatles |
| **Medi 2, 1666** | Gwm cnoi yn cael ei gynhyrchu yn ddiwydiannol am y tro cyntaf. |
| **Medi 2, 1752** | Daeargrynfeydd erchyll yn Mexico |
| **Medi 4, 1962** | Byddin Hitler yn mynd i Wlad Pwyl |
| **Medi 15, 1944** | Owain Glyndŵr yn cael ei gyhoeddi yn Dywysog Cymru. |
| **Medi 15 1890** | 102 o bobl yn ymfudo i America |
| **Medi 16, 1400** | Dyddiad geni Agatha Christie |
| **Medi 16, 1848** | Tân Mawr Llundain |
| **Medi 16, 1620** | Greta Garbo yn cael ei geni |
| **Medi 17, 1905** | Milwyr America yn mynd i’r Almaen |
| **Medi 19-20, 1985** | Y calendr Gregoraidd yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf |

3. Mae dyddiadau yn cael eu hysgrifennu fel TREFNOLION e.e. y cyntaf, yr ail, y trydydd, yr ail ar hugain, y chweched, y seithfed. Dim ond rhan olaf y gair sy’n cael ei ddefnyddio gyda’r ffigwr e.e. Medi 1**af**, Medi 3**ydd**, Medi 5**ed**, Medi 15**fed**, Medi 24**ain**.

Rhowch y terfyniad cywir ar ôl y rhain:
Hydref 6
Tachwedd 30
Ionawr 7
Chwefror 4
Mawrth 1

4. Ar ôl darllen ‘Diwrnod i Bopeth’ trafodwch y gosodiad hwn yn eich grŵp:

*Mae America yn mynd dros ben llestri wrth ddathlu pethau hollol hurt. Dim ond pethau neu bobl bwysig ddylai gael eu dathlu neu eu cofio e.e. seintiau, aelod o’r teulu, digwyddiad hanesyddol.*

Wrth drafod ceisiwch feddwl am ddadleuon o blaid ac yn erbyn y gosodiad.